**Barnu Cynnydd Digonol mewn ysgolion ac UCDau yn 2022**

*D.S. Diben yr arweiniad hwn yw cynorthwyo arolygwyr i fonitro cynnydd ysgolion ac UCDau mewn categori statudol.*

Ailddechreuom ymgymryd â gweithgarwch dilynol 'normal' yn 2021, er bod yr amseriad, y cyflymdra a'r raddfa rydym yn ailgyflwyno ymweliadau monitro â darparwyr yn dibynnu ar y sefyllfa o ran COVID-19 bob tro. Ar draws pob sector, ffocws allweddol unrhyw ymweliad monitro bob amser yw p'un a yw'r darparwr wedi gwneud **cynnydd digonol** ai peidio i'w dynnu o weithgarwch dilynol. Mae gwneud y penderfyniad hwn bob amser yn her i arolygwyr, ond mae'r sefyllfa ddigynsail sydd wedi wynebu darparwyr er mis Mawrth 2020 yn ei wneud hyd yn oed yn anos.

Diben y cymorth cof yw atgyfnerthu a gwneud yn glir yr egwyddorion allweddol a ddylai ategu meddyliau arolygwyr, wrth benderfynu p'un a yw darparwr wedi gwneud cynnydd digonol i gael ei dynnu o weithgarwch dilynol ai peidio.[1]

- Uwchlaw popeth arall, dylai ein hymagwedd **ganolbwyntio ar y dysgwr** bob amser. Dylid bob amser gwerthuso'r cynnydd y mae darparwr wedi'i wneud o ran pa mor dda y maent wedi cefnogi a datblygu lles, cynnydd a chyflawniad ei ddysgwyr.

- Wrth werthuso **arweinyddiaeth**, mae'n amlwg y bydd arolygwyr yn dymuno ystyried pa mor dda y mae arweinwyr wedi monitro a chefnogi lles staff a dysgwyr yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, mae'n bwysig i arolygwyr ystyried effeithiolrwydd arweinyddiaeth strategol yr addysgu a'r dysgu yn ogystal â rheolaeth weithredol yn ystod argyfwng COVID-19.

- Wrth werthuso **prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant**, dylai arolygwyr fod yn ystyriol y bydd llawer o ddarparwyr wedi atal rhai gweithgareddau (fel arsylwadau gwersi) yn ystod y pandemig. Ni ddylid 'beirniadu' darparwyr am leihau gwaith hunanwerthuso a gwella 'ffurfiol' yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, dylai arolygwyr barhau i werthuso **pa mor dda y mae arweinwyr yn gwybod beth yw cryfderau a diffygion eu darpariaeth, yn cynnwys darpariaeth dysgu o bell**, a ph'un a yw pob un o'r staff yn meddu ar **ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau strategol allweddol y darparwr** a sut y dylid eu cyflawni, ac erbyn pryd.

- Wrth werthuso **deilliannau dysgwyr**, er enghraifft y safonau maent yn eu cyflawni neu ddatblygiad eu gwybodaeth a'u medrau, dylai arolygwyr fod yn ystyriol – hyd yn oed yn fwy na'r arfer – o **gyd-destun** y darparwr. Mae darparwyr ledled Cymru wedi wynebu amrywiaeth o wahanol heriau ar wahanol adegau ac ar wahanol lefelau er mis Mawrth 2020, ac nid oes gennym ddata sydd wedi'i wirio yn genedlaethol i gefnogi ein gwerthusiad o ba mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni. Dylai arolygwyr fod yn ystyriol hefyd y bydd medrau a gwybodaeth dysgwyr wedi llithro'n ôl yn ystod cyfnodau o absenoldeb gorfodol, ac ni fydd yn briodol gwneud cymariaethau uniongyrchol â safonau adeg yr arolygiad craidd. Ni ddylai'r ymagwedd hon gynrychioli 'gostwng y safon', ond gwerthusiad realistig a theg o'r safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni yn sgil amgylchiadau penodol y darparwr. Wrth ystyried **agweddau at ddysgu**, dylai arolygwyr fod yr un mor ystyriol o'r effaith negyddol y gallai'r pandemig fod wedi'i chael ar wydnwch dysgwyr, pa mor hir y gallant ganolbwyntio, a'u gallu i weithio gydag eraill.

- Mae'n amlwg y bydd yn amhriodol cymharu lefelau **presenoldeb** â'r rhai adeg yr arolygiad craidd. Yn hytrach, dylai arolygwyr ganolbwyntio ar ba mor agos y mae'r darparwr yn monitro presenoldeb dysgwyr a'u hymgysylltiad yn ystod cyfnodau dysgu o bell, a'r effaith y mae eu strategaethau i wella presenoldeb yn ei chael, yn gyffredinol ac ar gyfer grwpiau neu unigolion targedig.

- Wrth werthuso **addysgu a'r cwricwlwm**, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y bu darparwyr yn cefnogi dysgu yn ystod y cyfnodau hynny pan nad oedd dysgwyr yn gallu mynychu. Fodd bynnag, bydd gwerthuso'n fanwl gywir yr effaith mae'r ddarpariaeth hon wedi'i chael yn eithriadol o heriol. Dylai arolygwyr ganolbwyntio'n glir ar effeithiolrwydd yr arfer ystafell ddosbarth a welwyd yn ystod yr ymweliad monitro, a'i heffaith dros gyfnod fel y dangosir trwy graffu ar waith dysgwyr (ar-lein neu ar bapur). Gallai arweinwyr fod wedi addasu eu cynlluniau ar gyfer datblygu'r **Cwricwlwm i Gymru** yn sgil y pandemig. Wrth werthuso ymagwedd arweinwyr at ddatblygu'r cwricwlwm, dylai arolygwyr

[1] Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio'n benodol at ymweliadau monitro 'corfforol' yn hytrach nag adolygiadau ALl wrth y ddesg ar gyfer darparwyr yn y categori Adolygu gan Estyn.

ystyried p’un a gafodd penderfyniadau ynghylch newid y cwricwlwm eu gwneud er budd lles a chynnydd disgyblion.

- Wrth ystyried **cynnydd yn gyffredinol**, dylai arolygwyr gofio nad oes ‘man penodol’ y mae’n rhaid i ddarparwyr ei gyrraedd er mwyn cael eu tynnu o weithgarwch dilynol. Dylid barnu cynnydd o ran ei drywydd a’i gynaliadwyedd. Dylai’r penderfyniad i dynnu darparwr o weithgarwch dilynol bob amser fod yn seiliedig ar b’un a yw arweinwyr ac aelodau staff eraill wedi dangos y gallu i wneud y gwelliannau angenrheidiol, a’u cynnal.